



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

20 Gorffennaf 2017

Annwyl ,

ATISN 11359

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 22 Mehefin 2017. Dyma y gwnaethoch chi ei ofyn:

Hoffwn weld cofrestr o letygarwch a rhoddion a dderbyniwyd gan uwch weision sifil a staff swyddfeydd preifat gweinidogion ar gyfer pob blwyddyn ers 2010, gan gynnwys rôl y gwas sifil, y rhodd a'i gwerth amcangyfrifedig, a'r cwmni neu unigolyn a ddarparodd y rhodd.

Mae'r wybodaeth y gofynnoch amdani wedi'u hatodi wrth y llythyr hwn. Nodwch: Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn destun nifer o ymarferion ailstrwythuro mawr yn ystod y saith mlynedd ddiwethaf er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn fwy hyblyg ac yn gallu ymateb yn well i flaenoriaethau Gweinidogion, gan gynnwys y swyddogaethau newydd y mae Llywodraeth Cymru bellach yn gyfrifol amdanynt. O ganlyniad, nid yw nifer o'r swyddi a'r adrannau a nodir yn yr ymateb bellach yn bodoli. Yn ystod y cyfnod hwn, mae niferoedd staff hefyd wedi gostwng dros 15%, felly nid yw nifer o'r unigolion yn y swyddi hynny bellach yn gweithio i Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn mynd ati'n rhagweithiol i gyhoeddi treuliau Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.



Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir